Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET)

Rydym yn cefnogi mudiadau trydydd sector sydd wrthi'n cynnal prosiect neu gontract a ariennir gan gyllid Ewropeaidd, a'r rheini sydd â diddordeb mewn gwneud hynny.

Mae gennym dri amcan:

1. cynyddu ymwybyddiaeth o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a'r rhaglenni cyllid Ewropeaidd ehangach yng Nghymru
2. cynyddu cyfraniad y trydydd sector at ddylunio a chynnal rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi 2014-2020
3. gwella cyfraddau cydymffurfio a lleihau'r risgiau wrth i'r trydydd sector gynnal prosiectau

Gwnawn hyn drwy'r canlynol:

1. GWYBODAETH A CHYNGOR

- rydym yn helpu mudiadau trydydd sector i ganfod y ffyrdd gorau o fynd ati i weithredu o dan raglenni Ewropeaidd 2014-2020 (fel buddiolwr arweiniol, cyd-fuddiolwr neu gontractwr)
- rydym yn rhoi cyngor technegol, er enghraifft, archwilio, costau symlach, a chadw cofnodion
- rydym yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol', er enghraifft, drwy'r broses cynllunio busnes

Mae 3-SET wedi datblygu nifer o daflenni gwybodaeth ynglŷn â phynciau amrywiol.

Mae'r rhain ar gael yn yr adran adnoddau defnyddiol ar ein gwefan.

2. HYFFORDDI, RHWYDWEITHIO A DIGWYDDIADAU

Rydym yn darparu nifer o gyrsiau, o Beth yw Cyllid Ewropeaidd i Gau Prosiectau a Chynllunio at Olyniaeth. Cynhelir ein cyrsiau wyneb yn wyneb, mewn gweminarau ac ar Hafan Dysgu arlein WCVA.

I weld rhestr lawn o'n cyrsiau hyfforddi ewch ar ein tudalennau hyfforddi.

Rydym hefyd yn cynnal digwyddiadau rheolaidd i'r trydydd sector i roi gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r diweddaraf am gyllid yr UE.

3. CYNRYCHIOLI

Rydym yn cynrychioli buddiannau, profiadau a phryderon y trydydd sector ac yn codi'r rhain â Llywodraeth Cymru ar ran y sector.

I gael rhagor o wybodaeth am gyllid yr UE, tanysgrifiwch i'n rhestr ohebu 3set@wcva.org.uk.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddosoddi Ewropeaidd

European Structural and Investment Funds